**Pwyllgor: Cyfle Cyfartal EOC-07-01(p.5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher, 31 Hydref 2001** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell pwyllgor 3** |
| **Teitl:** | **Cylch Gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.** |

## CYLCH GWAITH Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

### PWRPAS

Cael barn y Pwyllgor ynghylch a ddylai'i gylch gwaith gynnwys hawliau dynol.

### CEFNDIR

Mae Grp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad wedi gofyn am farn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar gynnig i ychwanegu hawliau dynol at gylch gwaith y Pwyllgor. Gwneir hyn mewn ymateb i gyflwyniad yr Athro Richard Rawlings, a oedd yn argymell ehangu cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys hawliau dynol (gweler y dyfyniad yn Atodiad A) ac oddi wrth Cardiff Charter88, a oedd yn argymell y dylai'r Cynulliad gyflwyno gweithdrefn archwilio i sicrhau bod pob agwedd berthnasol ar waith y Cynulliad yn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol (Atodiad B).

### CYFLWYNIAD RAWLINGS

Dyma grynodeb o gyflwyniad yr Athro Rawlings:

- Mae'r Cynulliad dan rwymedigaeth i lynu wrth y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn dwy ffordd:

    - nid oes gan y Cynulliad ber i wneud deddfwriaeth neu unrhyw ddeddf arall sy'n anghydfynd â Hawliau'r Confensiwn (a 107 *Deddf Llywodraeth Cymru*); a

- mae'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n anghydfynd â Hawliau'r Confensiwn (a 6(1) *Deddf Hawliau Dynol*).
- Mae'n bosib y gall y Confensiwn fod yn berthnasol iawn i swyddogaethau'r Cynulliad, ac mae gan y Cynulliad lawer iawn i'w ddysgu ynghylch sut y mae'n berthnasol.
- Nid yw'n glir eto beth yw cyfrifoldebau gwleidyddol a chyfreithiol y Cynulliad dros sicrhau bod Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn cydymffurfio â'r Confensiwn.
- Dyma'r amser priodol i sefydlu ffocws sefydliadol a gwleidyddol cadarn ym maes hawliau dynol

i sicrhau bod y Cynulliad yn datblygu polisïau priodol yn hytrach na'i fod yn cael ei arwain gan y llysoedd.

- Mae'r rhesymeg wreiddiol dros greu Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn berthnasol hefyd i hawliau dynol.
- Er bod manteision o gael pwyllgor newydd i ymdrin â hawliau dynol yn arbennig, efallai na fyddai hynny'n ymarferol o gofio'r pwysau y mae'r pwyllgorau presennol yn ei roi ar y Cynulliad a'i 60 aelod ac mae hawliau dynol a chyfle cyfartal yn mynd law yn llaw.

**CYFLWYNIAD CHARTER88**

Nodir yng nghyflwyniad Charter88 bod angen i'r Cynulliad gyflwyno gweithdrefnau er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'n honni ei fod wedi gweld o brofiad nad yw bwriadau da'n ddigonol ac y dylai'r Cynulliad gyflwyno gweithdrefn archwilio i sicrhau bod yr holl agweddau perthnasol ar waith y Cynulliad yn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol, gan gynnwys asesu holl ddogfennau deddfwriaeth, polisi a chanllawiau'r Cynulliad.

**SYLWADAU**

Er bod cysylltiad arwyddocaol amlwg rhwng materion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a hawliau dynol, mae rhwymedigaethau statudol y Cynulliad yn y meysydd hyn yn wahanol. Mae rhwymedigaeth y Cynulliad ym maes cyfle cyfartal yn golygu bod ganddo ddyletswydd gadarnhaol i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb tra bo'i rwymedigaeth ym maes hawliau dynol yn golygu bod ganddo ddyletswydd negyddol i beidio â thorri Hawliau'r Confensiwn. Gallai gwaith y Pwyllgor newid yn sylweddol pe bai'n gorfod archwilio'r ddyletswydd negyddol hon (rôl blismona) yn hytrach nag archwilio'r gwaith o hyrwyddo hawliau dynol (sicrhau digon o fentrau polisi).

Mater arall a godwyd o ran ychwanegu hawliau dynol i gylch gwaith y Pwyllgor yw p'un a ddylai'r Gweinidog sy'n gyfrifol am hawliau dynol fod yn aelod o'r Pwyllgor a chael rôl yn cadeirio'r Pwyllgor. Pe bai'r Gweinidog yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor, efallai y byddai angen newid aelodaeth ymhellach i gynnal cydbwysedd rhwng y pleidiau.

**CAMAU I'W CYMRYD GAN Y PWYLLGOR**

Ystyried sut i ymateb i'r Adolygiad o Weithdrefn y Cynulliad ynghylch a ddylid ymestyn cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys hawliau dynol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**